# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**11EG IONAWR 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips and G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd K. Broome, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio S/35028;
Y Cynghorydd J. Jenkins, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynlluniau S/35215 and S/35962.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu [y De];
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol Cydgysylltu Cynllunio;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir – 10:00am - 11:10am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.A. Davies, C. Jones a J.E. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **S/35215** | **Datblygiad preswyl i gynnwys 51 o breswylfeydd ynghyd â gwaith cysylltiedig, tir ger Clos y Benallt Fawr, Fforest, Abertawe, SA4 0TQ**<br><br>Gwnaed cais i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle er mwyn cael golwg ar y mynediad o'r safle i Heol y Fforest.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio roedd y gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod ar ôl yr ymweliad safle.<br><br>**RHESWM: Er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y mynediad o'r safle i Heol y Fforest yn sgil pryderon a fynegwyd ynghylch diogelwch ffyrdd.** |

**3.2 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle:-**

| | |
|---|---|
| **S/35962** | **Cadw'r llawr gwaelod fel bar caffi yn ystod y dydd gan ddefnyddio cefn y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf fel clwb nos yn ystod y nos ynghyd ag ychwanegu grisiau sy'n ddihangfa dân yn y cefn, 56 Stryd Stepney, Llanelli, SA15 3TG**<br><br>Yn dilyn sylw a wnaed gan yr Aelod lleol yn gwrthwynebu'r cais cynllunio, cynigiwyd bod y Pwyllgor yn ymweld â safle arfaethedig y clwb nos er mwyn cael gwell amcan o ran a fyddai effaith niweidiol bosibl ar eiddo cyfagos a'r ardal gyfagos yn ystod yr oriau gweithredu.<br><br>**RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle er mwyn cael amcan o leoliad y clwb nos arfaethedig mewn perthynas ag eiddo cyfagos.** |

| | |
|---|---|
| S/36429 | **Estyniad deulawr ar yr ochr ynghyd â phorth ceir ar lefel y ddaear, 36 Coedlan Parc y Strade, Llanelli, SA15 3EF.**<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r datblygiad arfaethedig, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio. Cynigiwyd bod y Pwyllgor yn cynnal ymweliad safle i ystyried materion sef a fyddai'r cymydog cyfagos yn colli golau ac a fyddai'r adeilad yn ormesol, ac a fyddai'r cais yn arwain at newid cymeriad o ran golwg Coedlan Parc y Strade.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio roedd y gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch yr eitem hon wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod ar ôl yr ymweliad â'r safle.<br><br>**RHESWM: Asesu a allai'r cynnig gael effaith niweidiol ar amwynder yr eiddo cyfagos o ran colli golau ac ystyried cymeriad y cynnig mewn perthynas â'r ardal.** |
| S/35028 | **Preswylfa ddeulawr, 15A Bryncaerau, Trimsaran, Cydweli, SA17 4DW.**<br><br>Roedd sylwadau wedi dod i law mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig yr oedd swyddogion wedi argymell ei fod yn cael ei wrthod.<br><br>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol ar ran yr ymgeisydd. Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y De] i'r pwyntiau a godwyd.<br><br>Yng ngoleuni'r sylwadau uchod, cynigiwyd bod y Pwyllgor yn cynnal ymweliad safle er mwyn cael golwg ar y safle a'i fynediad yn sgil y pryderon a fynegwyd ynghylch diogelwch ffyrdd.<br><br>**RHESWM: Er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor gael golwg ar fynediad y datblygiad arfaethedig.** |

**4. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16EG TACHWEDD 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2017, yn gywir.**

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[*SYLWCH: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]